Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg yn ogystal â Chymraeg.

This document is available in English as well as Welsh.

# Cylch Gorchwyl y Panel Sicrhau Ansawdd

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Blwch Post 99
Pencadlys yr Heddlu
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF
Ffôn:  01267 226 440
Ffacs: 01267 226 448
E-bost: opcc@dyfed-powys.police.uk
Gwefan: http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rheswm dros newid |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 27/09/2016 | Hannah Hyde | |
| 2.0 | 26/04/2017 | Caryl Bond | Adlewyrchu ychwanegu adolygu galwadau Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu |
| 3.0 | 11/01/2018 | Claire Bryant | Newidiadau er mwyn adlewyrchu datblygiadau i gylch gorchwyl y Panel Sicrhau Ansawdd ac amlder cyfarfodydd |
| 4.0 | 21/06/2018 | Caryl Bond | Newidiadau pellach er mwyn adlewyrchu datblygiadau i gylch gorchwyl y Panel, maint aelodaeth ac amlder cyfarfodydd |
| 4.1 | 01/09/2020 | Caryl Bond | Adolygiad blynyddol – Ychwanegu'r posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd rhithwir drwy lwyfan ar-lein diogel. |
| 4.2 | 24/03/2022 | Caryl Bond | Adolygiad blynyddol – Ychwanegu hyfforddiant ar-lein a'r posibilrwydd o gyfweliadau'n cael eu cynnal yn rhithwir drwy'r rhaglen *Microsoft Teams*. |
| 4.3 | 10/01/2023 | Caryl Bond | Ychwanegu Cod Ymddygiad y Panel Sicrhau Ansawdd a newidiadau i nifer yr Aelodau Panel. |
| 4.4 | 24/03/2023 | Caryl Bond | Adolygu treuliau'r Panel Sicrhau Ansawdd. |
| 5.0 | 17/05/2024 | Tom Walters | Adolygiad Blynyddol |
| 5.1 | 25/09/2024 | Tom Walters | Dolen ddiwygiedig i'r polisi Gwirfoddolwyr sy'n cyfeirio at ddiweddariadau i safonau a chymorth lles. |
| 5.2 | 06/12/2024 | Ellen Jones | Wedi'i ddiwygio yn dilyn adborth gan yr aelodau panel. |

**<u>Cynnwys</u>**


1. Polisi Gwirfoddolwyr ................................ **Error! Bookmark not defined.**
2. Cylch Gorchwyl y Panel Sicrhau Ansawdd ............................................ 4
3. Rheoli'r Panel Sicrhau Ansawdd ................. **Error! Bookmark not defined.**
4. Recriwtio a Chymhwysedd ............................................................... 5
5. Hyfforddiant ........................................ **Error! Bookmark not defined.**
6. Y Broses Graffu ..................................... **Error! Bookmark not defined.**
7. Amhleidioldeb a Chyfrinachedd ................. **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad A ........................................................................................ 10

Atodiad B ........................................................................................ 12

## 1. Polisi Gwirfoddolwyr

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Pholisi Gwirfoddolwyr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Polisi trosfwaol yw'r Polisi sy'n cynnwys egwyddorion cyffredinol gwirfoddoli ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh). Rhoddir copi o'r Polisi i bob gwirfoddolwr. Yn ogystal, mae copi ar gael ar wefan CHTh neu drwy wneud cais i swyddfa'r Comisiynydd.

Mae'r Polisi'n rhoi gwybodaeth bellach am yr agweddau canlynol o wirfoddoli:

- Rheoli'r Cynlluniau
- Cymhwysedd
- Recriwtio a cheisiadau
- Fetio
- Hyfforddiant
- Cyfnod prawf ac adolygiadau
- Rolau Gwirfoddoli, Cyfrifoldebau a Safonau
- Treuliau
- Yswiriant
- Iechyd a Diogelwch
- Cyfrinachedd
- Cael gwared ar ddogfennau
- Canllawiau Cyhoeddusrwydd
- Lles a Chymorth
- Datrys anghydfodau
- Terfynu penodiad
- Cwynion yn erbyn yr Heddlu
- Gwrth-hiliaeth

## 2. Cylch Gorchwyl y Panel Sicrhau Ansawdd

Sefydlwyd y Panel Sicrhau Ansawdd er mwyn adolygu ansawdd cyswllt yr Heddlu â'r cyhoedd, mewn modd tryloyw ac annibynnol, ar ran y cymunedau o fewn ardal Dyfed-Powys.

Bydd y Panel yn adolygu unrhyw faes lle mae cysylltiad rhwng yr heddlu a'r cyhoedd y cânt eu galw i edrych arno, er enghraifft, y ffordd mae'r Heddlu'n trin galwadau i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu h.y. 101, 999, cofnodion Stopio a Chwilio, Digwyddiadau Trosedd Casineb, digwyddiadau Cam-drin Domestig ac achosion Defnydd o Rym i enwi rhai.

Mae'r cylch gorchwyl hwn yn rhoi canllawiau manwl ynghylch rôl y Panel Sicrhau Ansawdd.

## 3. Rheoli'r Panel Sicrhau Ansawdd

Mae'r Panel yn cael ei gydlynu o fewn swyddfa CHTh. Bydd Aelodau Panel yn ymgysylltu â'r tîm Sicrwydd am ddiweddariadau ar newidiadau i'r cynllun.

Caiff aelodau Panel hawlio treuliau milltiredd ar gyfer unrhyw deithio sy'n gysylltiedig â'r rôl. Ystyrir treuliau llety dros nos ar gyfer aelodau sy'n gorfod teithio cryn bellter i fynychu cyfarfodydd. Bydd treuliau dros nos ond yn daladwy

pan fernir bod hynny'n angenrheidiol ar gyfer cwblhau dyletswyddau ac yn dilyn cymeradwyaeth ymlaen llaw gan SCHTh.

## 4. Recriwtio a Chymhwysedd

Bydd y Panel yn cynnwys uchafswm o 20 unigolyn sy'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y Fanyleb Rôl yn Atodiad A. Bydd SCHTh yn hysbysebu swyddi pan fyddant ar gael.

Bydd y meini prawf cymhwysedd yn ffurfio'r sail ar gyfer dewis ymgeiswyr ar gyfer y rhestr fer i ddod yn aelod Panel.

Gwahoddir ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer i fynychu cyfweliad anffurfiol ym Mhencadlys HDP yng Nghaerfyrddin neu'n rhithwir ar-lein drwy'r rhaglen *Microsoft Teams*.

Bydd y tîm cyfweld yn gwneud penderfyniad terfynol ac yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig. Bydd Aelodau Panel yn cael eu penodi unwaith y bydd cliriad fetio ar gyfer personél sydd ddim yn aelodau o'r heddlu (Lefel 2) yn cael ei ganiatáu. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu penodi i'r Panel am dymor cychwynnol o dair blynedd. Cyn mynychu unrhyw gyfarfod Panel sydd wedi'i drefnu, disgwylir i aelodau newydd ymgymryd â hyfforddiant cynefino a ddarperir gan SCHTh.

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau o gefndiroedd amrywiol ac yn hapus i gynorthwyo'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol wrth wneud cais a chymryd rhan yn y Panel. Bydd pob cais yn cael ei farnu yn ôl ei haeddiant, ac er mwyn diogelu annibyniaeth y Panel, mae'r Comisiynydd yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais. Rhoddir adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus ar gais.

## 5. Hyfforddiant

Rhoddir cyflwyniadau ar y maes ffocws o fewn pob cyfarfod Panel. Bydd Aelodau Panel yn cael rhagor o fanylion am y broses adolygu, h.y. y wybodaeth y gofynnir iddynt graffu arni, y modd y dylent gyflwyno adborth, a sut fydd eu canfyddiadau'n cael eu hadrodd a'u gweithredu.

Disgwylir i aelodau Panel gwblhau rhai modiwlau hyfforddi ar-lein ac mae'n bosibl y gofynnir iddynt fynd i Bencadlys HDP ar gyfer hyfforddiant gloywi, neu hyfforddiant ar feysydd penodol, pan fydd swyddfa CHTh, neu'r aelodau Panel, yn teimlo bod angen hyn. Gall aelodau Panel drafod unrhyw ofynion hyfforddi maen nhw'n teimlo sy'n berthnasol i'r rôl â swyddfa CHTh.

## 6. Y Broses Graffu

Bydd y Panel Sicrhau Ansawdd yn cwrdd bob yn ail fis; 6 gwaith y flwyddyn. Bydd staff CHTh yn rhoi gwybodaeth gefndir, megis data perfformiad, datblygiadau lleol a chenedlaethol, neu adborth gan swyddogaethau sicrwydd eraill er mwyn hysbysu gweithgareddau'r Panel yn y dyfodol. Bydd blaenraglen waith ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn cael ei llunio gan y tîm Sicrwydd o fewn SCHTh, a fydd yn nodi meysydd ffocws pob cyfarfod.

Disgwylir i aelodau fod yn bresennol yn y 6 chyfarfod craidd a gynhelir yn ystod y flwyddyn; fodd bynnag, ystyrir pob amgylchiad fesul achos. Fel arfer, cynhelir y cyfarfodydd Panel ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys yng Nghaerfyrddin gan y bydd y wybodaeth mae'r Panel yn craffu arni'n hynod gyfrinachol. Os yn briodol, weithiau, gellir cynnal rhai cyfarfodydd yn rhithwir drwy lwyfan diogel ar-lein. Wrth i weithgareddau'r Panel ddatblygu, bwriedir cynnal cyfarfodydd ymgysylltu ychwanegol ledled Dyfed-Powys gyda grwpiau cymunedol. Bydd hyn yn helpu i gael gwell mewnwelediad i'r problemau y mae unigolion gwahanol yn eu hwynebu a'u profiadau.

Mae angen cworwm er mwyn cynnal cyfarfod sydd wedi'i drefnu, sef 5 o aelod o'r Panel o leiaf.

Bydd y cyfarfodydd yn para diwrnod, a darperir cinio a lluniaeth.

Yn ystod y dydd, bydd y Panel fel arfer yn archwilio nifer o ffeiliau achos sy'n ymwneud â'r maes ffocws a gaewyd yn ystod y 3 - 6 mis diwethaf ac yn craffu arnynt. Os nad yw'r detholiad o achosion yn caniatáu digon o gronfa i ddewis hap sampl ohoni, gellir gofyn am achosion hyd at y 12 mis diwethaf. Bydd staff CHTh yn gofyn am restr achos lawn cyn y Cyfarfod Panel ac yn dewis yr achosion i graffu arnynt ar hap.

Bydd y Panel yn cael ei rannu'n grwpiau llai er mwyn craffu ar yr achosion. Bydd cael nifer o unigolion yn ystyried yr un achos yn arwain at adborth cytbwys a gwrthrychol. Os bydd 10 aelod neu fwy yn bresennol yn y digwyddiad, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Panel Sicrhau Ansawdd, ystyrir pa un ai a i rannu'r aelodau'n grwpiau llai er mwyn craffu ar yr achosion.

Gall fod cyfarfodydd Panel lle mae angen sgiliau TG sylfaenol i graffu ar ddogfennau digidol yr Heddlu. Gwneir hyn gan ddefnyddio cyfrifiaduron y Pencadlys yn yr ystafell hyfforddi TG.

Ar gyfer pob achos sy'n destun craffu, gofynnir i'r Panel ystyried agweddau amrywiol sy'n cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):

- A oedd y gwasanaeth a ddarparwyd gan yr Heddlu wedi'i gynnal mewn modd teg a chymesur;
- Edrych ar faterion megis tôn, amseroldeb a diweddariadau dioddefwyr, gan gynnwys y defnydd o iaith;
- Pa un ai a oeddent yn teimlo bod y canlyniad yn rhesymol a chymesur;
- Pa un ai a oedd anghenion y dioddefydd wedi'u nodi ac wedi'u harwain gan y dioddefydd;
- Nodi meysydd o arfer gorau a meysydd y mae angen eu gwella er mwyn dylanwadu ar newidiadau i bolisïau.

Wrth adolygu unrhyw fath o achos, bydd y Panel yn llenwi ffurflenni adrodd gan nodi eu hadborth a'u canfyddiadau ar bob achos. O'r ffurflenni hyn, bydd SCHTh yn cynhyrchu adroddiad, a fydd yn cael ei rannu â'r arweinydd adran / strategol perthnasol ar ôl cael ei gymeradwyo gan yr aelodau. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at unrhyw bryderon a godwyd gan y Panel, unrhyw feysydd ar gyfer gwella, ac unrhyw feysydd o arfer gorau.

Gofynnir i'r pennaeth adran perthnasol ddarparu ymateb ffurfiol i'r materion a nodwyd gan y Panel. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei roi i gyfarfod(ydd)/bwrdd/byrddau Heddlu Dyfed-Powys a'r Comisiynydd er mwyn sicrhau goruchwyliaeth briodol o unrhyw gamau gweithredu dilynol. Bydd adroddiadau hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan CHTh.

## 7. Cadeirydd y Panel Sicrhau Ansawdd

Bydd y Panel Sicrhau Ansawdd yn cael ei gadeirio gan wirfoddolwr sydd wedi mynegi diddordeb mewn cyflawni'r rôl. Bydd yr unigolyn sydd â'r nifer mwyaf o bleidleisiau'n dod yn Gadeirydd am gyfnod o flwyddyn; fodd bynnag, nid oes terfyn i'r amser y caiff rhywun Gadeirio'r cyfarfod, yn amodol ar etholiad blynyddol llwyddiannus. Os yw'r Cadeirydd yn enwebu ei hun, mae'n rhaid i aelod arall ei eilio. Yna, bydd y panel cyfan yn bwrw pleidlais. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd aelod o staff SCHTh yn cyflawni rôl y Cadeirydd.

Rôl y Cadeirydd yw:

- Sicrhau bod pob cyfarfod yn rhedeg ar amser.
- Sicrhau bod yr holl bwyntiau agenda yn cael eu trafod, a bod camau gweithredu wedi'u nodi gan y cymerwr nodiadau.
- Rhaid i'r Cadeirydd fodloni ei hun a'i gydweithwyr bod yr esboniadau a ddarperir gan aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd am eu harsylwadau a'u camau gweithredu'n berthnasol i'r pwnc sy'n destun craffu.
- Sicrhau ei gynefindra ei hun â'r pwnc ac unrhyw ddarllen ymlaen llaw cyn cyfarfod y Panel Sicrhau Ansawdd.

Hefyd, disgwylir i'r Cadeirydd:

- Cyflwyno'r Datganiad Cyfrinachedd cyn dechrau pob cyfarfod,
- Crynhoi'r arsylwadau a ddarperir gan aelodau'r panel, gan nodi unrhyw faterion difrifol neu dueddiadau i dynnu sylw atynt yn yr adroddiad.
- Os oes angen, cynorthwyo ag unrhyw faterion a godwir gan y Panel.

Rhaid i'r Cadeirydd fodloni ei hun a'i gydweithwyr bod yr esboniadau/sylwadau a ddarperir gan yr Heddlu, ar gyfer yr adroddiad canlyniadol, yn ddigonol a bod y canlyniad yn sicrhau bod pwyntiau perthnasol a drafodwyd yn y cyfarfod yn cael eu hamlygu os ydynt ar goll. Os yw'r panel yn fodlon â'r adroddiad canlyniadol yn ei gyfanrwydd, gall y Cadeirydd ei gymeradwyo yn y cyfarfod dilynol.

## 8. Amhleidioldeb a Chyfrinachedd

Yn ystod hynt eu dyletswyddau, bydd Aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd yn cael cryn dipyn o wybodaeth bersonol a chyfrinachol am unigolion a materion yr heddlu. Gan hynny, gofynnir iddynt lofnodi Cytundeb Ymrwymiad Cyfrinachedd wrth ymuno â'r Panel a bydd disgwyl iddynt ei ail-lofnodi'n rheolaidd. Dylai Aelodau Panel fod yn ymwybodol y gallai datgelu gwybodaeth a geir yn ystod cyfarfod panel yn amhriodol arwain at achos sifil neu droseddol.

Cyn cychwyn unrhyw Banel craffu, bydd Cadeirydd y Panel Sicrhau Ansawdd yn darllen y Datganiad Cyfrinachedd canlynol yn uchel er mwyn atgoffa aelodau Panel am eu rhwymedigaeth i Gyfrinachedd:

> *"Fel aelodau o'r Panel Sicrhau Ansawdd sy'n gweithio ar ran Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, rydych chi'n cydnabod y cyfrifoldebau sy'n deillio o'r Ymrwymiad Cyfrinachedd. Wrth arsylwi'r rhyngweithiadau gyda throseddwyr, dioddefwyr, ac aelodau eraill o'r cyhoedd; mae gan bob aelod ffiniau cyfrinachedd cytûn. Mae'r cyfarfod hwn yn parchu'r ffiniau cyfrinachedd hynny ac mae'n cael ei gynnal o dan ddealltwriaeth lem a rennir bod unrhyw wybodaeth bersonol ond yn cael ei rhannu o fewn y fforwm hwn mewn ymgais i graffu ar wasanaeth yr heddlu ar gyfer aelodau'r cyhoedd. Mewn cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU, ystyrir bod pob fideo, clip sain neu ddogfen a ddatgelir yn "GYFRINACHOL" ac ni ddylid eu trafod na'u datgelu tu allan i'r cyfarfod heb ganiatâd."*

Dylai gwirfoddolwyr hysbysu SCHTh yn syth:

- Os ydynt yn cael eu harestio neu eu cyhuddo â thramgwydd troseddol neu os ydynt o dan ymchwiliad.
- Os ydynt yn ymwybodol yn bersonol o'r unigolion neu'r amgylchiadau sy'n gysylltiedig ag unrhyw achos sy'n destun craffu.

Gall methu â gwneud hyn arwain at aelodau Panel yn cael eu hatal rhag ymgymryd â dyletswyddau gwirfoddoli pellach wrth aros am ganlyniad unrhyw weithdrefnau.

## Atodiad A

| Aelod o'r Panel Sicrhau Ansawdd - Manylion Rôl | |
|---|---|
| Bydd y meini prawf yn y Manylion Rôl hyn yn ffurfio'r sail ar gyfer llunio rhestr fer o ymgeiswyr addas i ddod yn Aelod Panel. Mae'r meini prawf hyn yn angenrheidiol er mwyn galluogi perfformiad effeithiol o fewn y rôl. | |
| **Meini Prawf** | **Gallu** |
| Cymhwyster | • Rhaid bod yn 18 oed neu'n hŷn;<br>• Rhaid byw neu weithio yn ardal Dyfed-Powys (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, neu Bowys);<br>• Rhaid eu bod yn barod i deithio i Bencadlys Heddlu Dyfed-Powys yng Nghaerfyrddin er mwyn mynychu cyfarfodydd Panel;<br>• Rhaid bod yn annibynnol o'r Heddlu a'r System Cyfiawnder Troseddol, h.y. ni fydd SCHTh yn penodi swyddogion heddlu sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, staff heddlu, aelodau cyfredol o SCHTh, cwnstabliaid gwirfoddol, nac unrhyw un sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r system cyfiawnder troseddol, megis cyfreithwyr neu swyddogion prawf;<br>• Rhaid i rywun sydd wedi'i gyflogi gan Heddlu Dyfed-Powys neu SCHTh adael i o leiaf blwyddyn fynd heibio cyn cael ei benodi i wasanaethu ar y Panel.<br>• Nid yw unigolyn sydd ar y Panel Heddlu a Throseddu, neu unigolyn sy'n gynghorydd neu'n weithiwr gyda chyngor sy'n cael ei gynrychioli ar y Panel Heddlu a Throseddu, yn gymwys i gael ei benodi i'r Panel Sicrhau Ansawdd;<br>• Rhaid datgan unrhyw weithgarwch gwleidyddol arwyddocaol gan gynnwys dal swydd, siarad cyhoeddus, rhoi rhodd y mae angen ei chofnodi, neu sefyll ar gyfer etholiad yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf;<br>• Rhaid cael cliriad fetio ar ôl bod yn llwyddiannus adeg y cam cyfweld. |
| Gweithio gyda phobl | • Medru dangos gallu i weithio fel rhan o dîm;<br>• Gallu i sefydlu a chynnal perthnasau gwaith da gydag ystod eang o bobl. |
| Sgiliau cyfathrebu effeithiol | • Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig;<br>• Y gallu i ddehongli gwybodaeth ysgrifenedig / ystadegol;<br>• Rhaid cael sgiliau TG sylfaenol, gan gynnwys llywio drwy ffeiliau a dogfennau electronig, ond nid yn gyfyngedig i hynny;<br>• Medru dangos y gallu i reoli ymrwymiadau a gwneud cyfraniad dibynadwy i'r Panel. |
| Sgiliau craffu | • Profiad blaenorol mewn rôl sy'n cynnwys dadansoddi, adolygu |

| | |
|---|---|
| | neu ddatblygu gwasanaethau, gwerthuso perfformiad neu arolygu;<br>• Arddangos y gallu i gwestiynu, herio, pwyso a mesur materion, a gwneud dyfarniadau cytbwys, rhesymol, cymesur a gwrthrychol. |
| Cymhelliant | • Y gallu i arddangos brwdfrydedd dros wella profiad y defnyddiwr gwasanaeth;<br>• Y gallu i fod yn bresennol yn y 6 chyfarfod craidd a gynhelir mewn blwyddyn. |
| Parch dros bobl | • Ymrwymiad i drin pawb yn deg a chyda pharch, gwerthfawrogi amrywiaeth, ac ymateb yn sensitif i wahaniaeth;<br>• Arddangos y gallu i fod yn agored i syniadau a dulliau gweithio newydd. |

## Atodiad B

### Cod Ymddygiad

Mae'r Cod Ymddygiad hwn yn nodi'r safonau a argymhellir ar gyfer holl aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd.

Mae'n ofynnol i holl aelodau Panel Sicrhau Ansawdd y Comisiynydd, wrth dderbyn eu penodiad, ddatgan y byddant yn cael eu harwain gan y Cod hwn.

Mae'r Cod yn cynrychioli'r safon a ddisgwylir gan holl aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd ac mae bod yn aelod parhaus o'r Cynllun yn seiliedig ar ddilyn y Cod.

### 1. Camymddwyn

Mewn achos o gamymddwyn, bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn ystyried a yw'n briodol terfynu penodiad yr aelod hwnnw o'r Panel Sicrhau Ansawdd. Bydd camymddwyn yn cwmpasu materion fel y rhai canlynol: -

- Euogfarn o drosedd
- Datgelu gwybodaeth gyfrinachol
- Diffyg cydymffurfio â chanllawiau cyfarfodydd

### 2. Y Safonau Gofynnol

Er mwyn i aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd fod yn effeithiol, mae'n hanfodol bod aelodau'r Panel a staff yr heddlu’n datblygu ac yn cynnal cydberthnasau gwaith proffesiynol yn seiliedig ar barch a dealltwriaeth o rolau cyfreithlon ei gilydd. Mae’n bwysig yn y cyd-destun hwn nad yw aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd yn creu anawsterau drwy wneud y canlynol:-

- Methu â gwerthfawrogi blaenoriaethau'r heddlu
- Cymryd rhan mewn mân feirniadaeth ormodol
- Mabwysiadu agwedd or-wrthwynebol
- Canolbwyntio ar ddod o hyd i fai a cheisio maglu'r heddlu
- Beirniadu camau gweithredu gan yr heddlu neu gwestiynu eu barn mewn meysydd y tu allan i gylch gwaith y Panel
- Cymryd rhan mewn sefyllfaoedd o wrthdaro rhyngbersonol gyda staff yr heddlu
- Dweud wrth yr heddlu beth ddylen nhw ei wneud

Rhaid ystyried y materion hyn gan gofio bod angen sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng sefydlu trefniadau gweithio effeithiol a datblygu perthynas sy’n rhy agos a chysurus. Bydd hyn yn peryglu annibyniaeth aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd o ran darparu sylwadau ac adroddiadau gwrthrychol ac adeiladol.

Disgwylir hefyd i holl aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd ymatal rhag defnyddio iaith wahaniaethol (e.e. iaith rywiaethol, hiliol neu homoffobaidd) a rhag arddangos unrhyw fath o ymddygiad gwahaniaethol yn eu rôl.

## 3. Methiant i fynychu cyfarfodydd

Os bydd aelod yn methu â mynychu cyfarfod o fewn cyfnod o chwe mis, bydd SCHTh yn ysgrifennu at y sawl dan sylw i ofyn am esboniad.

Os nad yw unigolyn wedi mynychu unrhyw gyfarfodydd o fewn blwyddyn ac nad yw SCHTh wedi derbyn rheswm da am hyn, fe ystyrir a ddylid terfynu penodiad yr unigolyn hwnnw.

## 4. Cwynion yn erbyn yr Heddlu

Pan fydd aelod o'r Panel Sicrhau Ansawdd yn gwneud cwyn yn erbyn yr heddlu sy'n cael ei chofnodi, boed yn ei rôl fel aelod o'r Panel Sicrhau Ansawdd neu fel unigolyn preifat, rhaid hysbysu SCHTh. Yna bydd y manylion llawn yn cael eu rhoi gerbron Pennaeth Sicrwydd SCHTh ac fe ystyrir a ddylid atal neu gwtogi ar ddyletswyddau'r aelod er budd didueddrwydd.

## 5. Perthnasoedd gwaith ag aelodau eraill y Panel Sicrhau Ansawdd

Yn ogystal â chynnal perthynas waith broffesiynol gyda staff yr heddlu, rhaid i aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd hefyd ystyried eu cyd-aelodau yn yr un modd. Rhaid i bob aelod felly wneud y canlynol:-

- Bod yn gefnogol a dangos parch at ei gilydd ac at farn aelodau eraill
- Gweithio fel tîm
- Chwarae rhan weithredol a chyfartal yn ystod cyfarfodydd
- Osgoi bod yn dra-awdurdodol mewn sgyrsiau yn ystod cyfarfodydd

## 6. Torri'r Cod Ymddygiad

Gan fod y Cod Ymddygiad hwn yn cynrychioli'r safon a ddisgwylir gan holl aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd a bod parhau i fod yn aelod o'r panel yn seiliedig ar ddilyn y Cod, gellir terfynu, atal neu gwtogi ar benodiad aelod y canfyddir ei fod yn torri'r Cod.

Os bydd cwyn neu honiad yn cael ei wneud bod aelod o'r Panel Sicrhau Ansawdd wedi torri unrhyw ran o'r Cod Ymddygiad hwn, bydd y camau canlynol yn cael eu cymryd.

Bydd SCHTh yn gofyn i'r gŵyn/honiad gael ei wneud yn ysgrifenedig, os nad yw hyn wedi'i wneud eisoes. Ni chymerir unrhyw gamau pellach oni bai fod y gŵyn/honiad yn cael ei wneud yn ysgrifenedig.

Bydd SCHTh, ar ôl derbyn y gŵyn/honiad ysgrifenedig, yn hysbysu'r aelod o'r Panel Sicrhau Ansawdd bod cwyn/honiad wedi'i dderbyn ac o'r hyn sydd ynddo.

Bydd yr aelod o'r Panel Sicrhau Ansawdd yn cael cyfle i ymateb i'r gŵyn/honiad naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Bydd SCHTh yn gwneud yr ymholiadau perthnasol angenrheidiol i benderfynu ar sylwedd y gŵyn/honiad. Wrth wneud hynny, ac yn dibynnu ar natur y gŵyn,

bydd SCHTh yn cysylltu ag unrhyw un neu bob un o’r partïon canlynol:

- Yr Achwynydd
- Cyd-aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd
- Unrhyw un arall sy'n gallu darparu gwybodaeth berthnasol

Ar ôl gwneud yr ymholiadau angenrheidiol, bydd SCHTh yn paratoi adroddiad, gydag argymhellion, a fydd yn cael ei ystyried gan Bennaeth Sicrwydd SCHTh. Bydd yr aelod o'r Panel Sicrhau Ansawdd yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad a wnaed.

Gall yr aelod o'r Panel Sicrhau Ansawdd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i Brif Weithredwr SCHTh i apelio yn erbyn y penderfyniad a wnaed o fewn 28 diwrnod i dderbyn penderfyniad y Pennaeth Sicrwydd.

## 7. Datganiad

Rwyf wedi darllen a deall cynnwys y Cod Ymddygiad hwn a chytunaf i gadw at y darpariaethau a gynhwysir ynddo.

Enw mewn priflythrennau: ....................................................

Llofnod: ....................................................

Dyddiad: ....................................................